# Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent



# Adroddiad Craffu Blynyddol 2022-23

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | Tudalen 3 |
| Newidiadau  i’r Strwythur Democrataidd | Tudalen 5 |
| Craffu ym Mlaenau Gwent | Tudalen 6 |
| Blaenraglenni Gwaith | Tudalen 7 |
| Craffu Blaenau Gwent mewn Ffigurau 2022/23 | Tudalen 8 |
| Pwyllgorau Craffu Trosolwg Corfforaethol a Pherfformiad | Tudalen 9-11 |
| Pwyllgor Craffu Pobl | Tudalen 12-14 |
| Pwyllgor Craffu Lle | Tudalen 15-17 |
| Pwyllgor Craffu Partneriaeth | Tudalen 18-20 |
| Presenoldeb Aelodau mewn Cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu | Tudalen 21 |
| Sut y gall y cyhoedd gymryd rhan yn y Broses Craffu | Tudalen 22 |
| Deddfwriaeth | Tudalen 23–24 |
| Datblygiadau ar y Gweill | Tudalen 25 |
| Gwybodaeth Gyswllt | Tudalen 26 |
| Atodiadau | Tudalens 27-35 |

## Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Craffu Blynyddol 2022/23 Blaenau Gwent sy'n rhoi trosolwg o waith pob Pwyllgor Craffu. Gwelodd eleni newidiadau sylweddol i Aelodau Etholedig yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022 a strwythur newydd ar gyfer pwyllgorau a gytunwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym Mai 2022.

Bu'r Aelodau a ddychwelodd a hefyd yr aelodau newydd yn effeithiol wrth herio a dylanwadu ar broses gwneud penderfyniadau'r Cyngor a maent wedi ychwanegu gwerth i ystod eang o weithgareddau, er mwyn sicrhau canlyniadau effeithiol ar gyfer pobl Blaenau Gwent. Caiff peth o'r gwaith hwn ei amlygu yn adrannau dilynol yr adroddiad hwn.

Yn dilyn newidiadau i'r strwythur democrataidd yn 2022, mae gan Flaenau Gwent yn awr bedwar pwyllgor craffu sydd gyda'i gilydd yn cefnogi gwaith y Cabinet a'r Cyngor, ac mae'r strwythur newydd yn parhau i alluogi rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet i ddylanwadu ar sut y gall polisi lleol a strategol weithio'n fwy effeithiol ar gyfer y bobl a wasanaethant a herio'r Cabinet yn effeithlon ar ei benderfyniadau.

Mae swyddogaeth Craffu y Cyngor yn cynnwys Aelodau nad ydynt yn rhan o'r Cabinet. Caiff yr Aelodau nad ydynt yn rhan o'r Cabinet eu penodi i eistedd ar y Pwyllgorau Craffu i gefnogi gwaith y Cabinet a'r Cyngor yn ei gyfanrwydd.

Nid oes gan y Pwyllgorau bwerau gwneud penderfyniadau, fodd bynnag maent yn gweithredu i gadw cydbwysedd ar y pwerau a weithredir a'r penderfyniadau a wneir gan y Cabinet.

## Cyflwyniad (parhad)

Mae'r Pwyllgorau Craffu yn galluogi rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet i gael mwy o lais ym materion y Cyngor drwy:

- Cynorthwyo'r Cabinet i ddatblygu polisi;
- Monitro perfformiad y Cyngor a'i bartneriaid;
- Archwilio effaith a gweithredu ac effaith penderfyniadau a pholisïau'r Cabinet;
- Dal yr Arweinydd, y Cabinet a'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol i gyfrif;
- Gwrando ar farn y cyhoedd a gwneud yn siwr y caiff llais y cyhoedd ei glywed; a
- Craffu sefydliadau allanol sy'n darparu gwasanaethau i'n preswylwyr.

Mae craffu ar ei fwyaf effeithiol pan fydd ei ffocws ar nifer gyfyngedig o bynciau a blaenoriaethau manwl. Wrth ystyried eitemau agenda, dylai Pwyllgorau Craffu roi yr un ystyriaeth i'r gwerth tebygol a'r effaith a gafwyd ar gyfer unrhyw adroddiad neu adolygiad. Bydd angen cydbwyso hyn yn ofalus gyda'r amser ac adnoddau sydd eu hangen i gynnal y gweithgaredd.

Gall eitemau eraill o ddiddordeb neu wybodaeth sydd eu hangen i gynyddu gwybodaeth a sgiliau Aelodau mewn maes neilltuol gael eu darparu i Aelodau drwy Sesiynau Gwybodaeth i Aelodau, Sesiynau Gwybodaeth Cyfarwyddiaeth a hyfforddiant a datblygu Aelodau.

Caiff pob cyfarfod democrataidd eu trefnu fel cyfarfodydd hybrid, h.y. gall Aelodau Pwyllgor a Swyddogion fynychu'n rhithiol drwy Microsoft Teams neu ddod yn gorfforol i'r cyfarfod yn y Swyddfeydd Cyffredinol. Gall aelodau o'r cyhoedd hefyd fynychu cyfarfodydd naill ai'n rhithiol neu'n gorfforol. Caiff pob Cyfarfod Democrataidd eu recordio a'u lanlwytho ar wefan Blaenau Gwent.

## Newidiadau i'r Strwythur Democrataidd

Yn ystod 2021/22 fe wnaethom gynnal gwaith ymchwil bwrdd gwaith cynhwysfawr i ystyried lle medrid cryfhau a moderneiddio swyddogaeth ddemocrataidd y Cyngor. Mae'r ymchwil wedi cynnwys:

- Sylwadau gwerthuso gan swyddogion ac aelodau;
- Dadansoddiad data;
- Trafodaethau cyfarfodydd rhwydwaith;
- Cyfarfodydd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion;
- Ystyried prosesau mewn meysydd eraill; a
- Dadansoddi data cymharol.

Oherwydd newidiadau gan y Comisiwn Ffiniau, gostyngodd Blaenau Gwent o 16 i 14 Ward a nifer yr Aelodau Etholedig o 42 i 33. Yn dilyn y gostyngiad, cafodd nifer o ganfyddiadau a chynigion eu hystyried a'u cytuno gan y Cyngor i'w gweithredu yn ystod blwyddyn fwrdeisiol 2022/23.

Fel rhan o'r newidiadau i'r strwythur democrataidd, mae gan Flaenau Gwent bellach bedwar pwyllgor craffu sydd gyda'i gilydd yn cefnogi gwaith y Cabinet a'r Cyngor.

Newidiadau pellach a gytunwyd yn 2022 oedd:

- Gostwng nifer Aelodau Etholedig oedd yn eistedd ar Bwyllgorau Craffu o 15 i 9
- Agenda mwy cryno a gyda mwy o ffocws—gyda dim mwy na dwy eitem, yn y categori cyn penderfyniad a monitro perfformiad lefel uchel
- Cofnodion cyfarfodydd pwyllgor—cofnodion i gynnwys: presenoldeb, ymddiheuriadau, datganiadau buddiant a phenderfyniadau neu argymhellion (gellir gweld y cyfarfodydd llawn drwy recordiad ar wefan Blaenau Gwent).

Rydyn ni hefyd wedi sefydlu argymhellion ffurflenni fel rhan o'r broses craffu. Mae hyn yn galluogi argymhellion o Craffu i'r Cabinet/Cyngor fod ar gael yn rhwydd drwy dudalen cyfarfod y pwyllgor perthnasol.

## Craffu ym Mlaenau Gwent

Pedwar pwyllgor craffu y Cyngor yw:

- Trosolwg Corfforaethol a Pherfformiad
- Partneriaeth
- Pobl
- Lleoedd

Fel y cytunwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Mai 2022, mae pob pwyllgor craffu yn cynnwys 9 Aelod Etholedig.

Mae gan bob pwyllgor craffu gylch gorchwyl penodol. Rhoddir manylion llawn y meysydd a ddaw o fewn pob pwyllgor craffu yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

Mae strwythur newydd yr agenda craffu wedi sicrhau fod aelodau'n cynnal heriau manwl ar gyfer pob eitem dan drafodaeth. Mae'r gostyngiad yn nifer yr eitemau ar gyfer craffu hefyd wedi sicrhau na chaiff Blaenraglen Gwaith y Cabinet ei gorlwytho gydag eitemau monitro.

Gwahoddwyd tystion arbenigol a phobl eraill i gyfrannu at gyfarfodydd craffu, yn cynnwys y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS), Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin a'r Gwasanaeth Rhannu Adnoddau (SRS). Mae aelodau'r Cabinet hefyd wedi mynychu drwy wahoddiad i ategu cwestiynau ar bynciau penodol.

Tu allan i'r pwyllgorau craffu ffurfiol, mae aelodau wedi mynychu nifer fawr o sesiynau gwybodaeth a fu'n ddefnyddiol a datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o bynciau penodol. Mae adborth gan swyddogion hefyd wedi cefnogi'r ffordd newydd o weithio, dywedodd swyddogion iddynt dderbyn gwell ymgysylltu gan aelodau yn y sesiynau yma.

Mae aelodau hefyd wedi cynnal nifer o ymweliadau safle, e.e. Canolfan Cyngor Tai, darpariaeth breswyl Gwasanaethau Cymdeithasol a Silent Valley.

Cynhelir cyfarfodydd o Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion bob chwarter i drafod ac adolygu'r gweithgaredd gweithredol Craffu ym Mlaenau Gwent i gyfrannu at welliannau a sicrhau cysondeb ymarfer lle'n briodol.

Caiff sesiynau gwybodaeth Cyfarwyddiaeth hefyd eu cynnal yn chwarterol gyda Chyfarwyddiadau unigol, a gwahoddir yr holl Aelodau iddynt. Mae gan y sesiynau hyn ffocws agos ac maent yn rhoi gwybodaeth a manylion ar feysydd gwasanaeth i godi diddordeb a brwdfrydedd Aelodau.

## Blaenraglenni Gwaith

Dechreuodd y gwaith i ddatblygu'r **Flaenraglenni Gwaith ar gyfer 2022/23** i ddechrau ym mis Ebrill 2022. Roedd y gwaith yn cynnwys:

- Cyfarfod gyda meysydd gwasanaeth i ystyried pynciau i'w cynnwys yn nrafft Raglenni Gwaith y Pwyllgorau Craffu, y Cyngor a'r Cabinet.
- Yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, cynhaliwyd cyfarfod o'r Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion newydd i drafod y Blaen-raglenni Gwaith Craffu a gydag Aelodau Cabinet i drafod drafft Blaenraglenni Gwaith y Cabinet a'r Cyngor.
- Cafodd y Blaenraglenni Gwaith eu llofnodi'n ffurfiol gan bob un o'r Pwyllgorau ym Medi 2022, ac yna eu cyfieithu a'u gwneud ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar wefan Blaenau Gwent.
- Gan eu bod yn ddogfennau hylif, cafodd y Blaenraglenni Gwaith eu hadolygu'n rheolaidd gan Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion a swyddogion yn y cyfarfodydd Rheoli Agenda a gan yr holl aelodau pwyllgor ym mhob cyfarfod o'r pwyllgor craffu.
- Mae'r Blaenraglenni Gwaith ar gael ar wefan Cyngor Blaenau Gwent a maevdolenni i Flaenraglenni Gwaith Pwyllgorau Craffu unigol ar gael yn nhudalennau'r Pwyllgor Craffu perthnasol.

# Craffu Blaenau Gwent mewn Ffigurau 2022/23

**21** Eitem Agenda Craffu Cyn Penderfynu

**236** Golwg Unigol ar Gyfarfodydd Pwyllgor Ar-lein

**75** Sesiwn Gwybodaeth Aelodau wedi eu cynnal

**87%** o Aelodau wedi mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Craffu

**3** o dystion/gwahoddedigion arbenigol wedi eu gwahodd ac wedi cyfrannu at gyfarfodydd craffu

**Pwyllgor Craffu Lleoedd**

Edrychodd y nifer fwyaf ar gyfarfod y Pwyllgor Craffu ar 14 Mawrth **2023**.

**24** o gyfarfodydd ffurfiol Pwyllgorau Craffu wedi eu cynnal

**4** o gyfarfodydd wedi eu mynychu gan Aelod Cabinet

# Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a Chraffu Perfformiad

## Trosolwg y Cadeirydd

Cafodd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol a Pherfformiad flwyddyn gynhyrchiol, gan gynnal 9 cyfarfod.

Mae aelodau'r pwyllgor (rhai ohonynt yn newydd i rôl cynghorydd) wedi parhau i ddatblygu a dysgu a darparu her briodol i adroddiadau. Bu lefel wirioneddol dda o gwestiynu a thrafodaeth ac mae'r pwyllgor wedi defnyddio dalenni gweithredu a'r flaenraglen gwaith.

Rhaid mynegi fy niolch i holl aelodau'r pwyllgor am eu presenoldeb rhagorol a'u mewnbwn gwerthfawr dros y flwyddyn. Diolch arbennig i'r Is-gadeirydd, y Cyng J Thomas am ei chefnogaeth ac i bob swyddog am eu hadroddiadau cynhwysfawr, cyfranogiad, help ac arweiniad.

I weld yr eitemau a gafodd eu craffu yn ystod y flwyddyn, gellir cael mynediad i'r Blaenraglenni Gwaith ar y ddolen ddilynol
Blaenraglen Gwaith y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a Pherfformiad



***Cyng. Joanna Wilkins***

***Cadeirydd, Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a Pherfformiad.***

## Presenoldeb Aelodau mewn Cyfarfodydd Craffu Trosolwg Corfforaethol a Pherfformiad

**Cadeirydd:**

Cynghorydd Joanna Wilkins (mynychu 9 o 9 cyfarfod)

**Is-gadeirydd:**

Cynghorydd Jacqueline Thomas (mynychu 9 o 9 cyfarfod)

Cynghorydd Carl Bainton (mynychu 8 o 9 cyfarfod)

Cynghorydd Malcolm Day (mynychu 8 o 9 cyfarfod)

Cynghorydd George Humphries (mynychu 9 o 9 cyfarfod)

Cynghorydd Ellen Jones (mynychu 8 o 9 cyfarfod)

Cynghorydd Ross Leadbeater (mynychu 8 o 9 cyfarfod)

Cynghorydd Chris Smith (mynychu 9 o 9 cyfarfod)

Cynghorydd Tommy Smith (mynychu 7 o 9 cyfarfod)

## Cylch Gorchwyl y Pwyllgor:

Prif feysydd cyfrifoldeb y **Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol** yw datblygu ac adolygu strategaethau, cynlluniau a pholisïau a monitro perfformiad y Cyngor yn ei gyfanrwydd; a Datblygu Sefydliadol, Cyfathrebu a Marchnata, Cydraddoldeb, Cwsmeriaid a Dinasyddion, y Gymraeg, Strategaeth Ariannol Tymor Canol. Bydd y pwyllgor newydd hefyd yn monitro rheolaeth ariannol y Cyngor.

## Uchafbwyntiau y Flaenraglen Gwaith Craffu

| Pwnc: Cynllun Disgresiwn Costau Byw |
|---|
| **Gweithgaredd** |
| Cyflwynwyd adroddiad yn gofyn am gymorth am gyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i alluogi cynghorau i roi cymorth dan gynllun ar ddisgresiwn i helpu aelwydydd mewn angen cymorth gyda'u costau byw. Gofynnwyd i'r Pwyllgor gefnogi taliad o £100 i aelwydydd cymwys. Fel rhan o'r cynllun, gofynnwyd hefyd i'r pwyllgor gefnogi'r Cyngor wrth wneud cyfraniad o £100k i Fanc Bwyd Blaenau Gwent a £50k i Cyngor ar Bopeth (CAB). |
| **Canlyniad** |
| Cefnogodd y pwyllgor y taliad o £150 i aelwydydd cymwys a hefyd y cyfraniad o £50k i CAB, fodd bynnag argymhellodd y Pwyllgor ddiwygio'r Cynllun fel bod £30k yn cael ei roi i Fanc Bwyd Blaenau Gwent fel y prif dderbynydd a sefydlu cronfa ar ddisgresiwn o £70k i alluogi grwpiau/ mudiadau eraill dosbarthu bwyd lleol i wneud cais am gyllid gan y cyngor i gynorthwyo gyda gwaith dosbarthu o fewn eu cymunedau eu hunain.<br><br>Fe wnaeth yr aelodau ystyried a chytuno ar yr argymhelliad craffu yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi 2022. |

## Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a Pherfformiad

Ystyriodd y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a Pherfformiad nifer o bolisïau, cynlluniau a strategaethau ac adroddiadau perfformiad lefel uchel. Hefyd mynychodd Aelodau sesiynau Gwybodaeth i Aelodau i gynyddu eu sgiliau a'u gwybodaeth. Caiff enghreifftiau ohonynt eu rhestru isod:

**Polisiau, Cynlluniau a Strategaethau**




- Cynllun Dewisol Costau Byw
- Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg
- Adolygu Strategaeth Gweithlu a Chynllun Gweithredu 2 Flwyddyn
- Polisi Gyrru yn y Gwaith
- Strategaeth Comisiynu a Chaffael
- Cynigion Cyllideb Refeniw 2023/24
- Adolygiad Strategaeth Cyfalaf
- Adolygiad o'r Polisi Gweithio Ystwyth

**Monitro Perfformiad Lefel Uchel**



- Monitro Cyllideb Cyfalaf a Refeniw
- Perfformiad Absenoldeb Salwch 2021/22
- Asesiad Blynyddol o Berfformiad y Cyngor 2021/22
- Rheolaeth Trysorlys 2021/22
- Adroddiad Cyllid a Pherfformiad ar y Cyd
- Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol

**Sesiynau Gwybodaeth i Aelodau**



- Gwaith y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol
- Cyfansoddiad y Cyngor
- Rheoli Cyfryngau Cymdeithasol a'r Cyfryngau
- Cyllid Llywodraeth Leol
- Cyllideb y Cyngor 2023/24
- Monitro Ariannol
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Y Gymraeg
- Perfformiad Absenoldeb Salwch

# Pwyllgor Craffu Pobl

## Trosolwg y Cadeirydd

Mae'r Pwyllgor Craffu Pobl wedi parhau ei waith i graffu a herio ar draws rhaglen waith eang, gydag aelodau pwyllgorau yn defnyddio sgiliau a phrofiad i gyflwyno argymhellion i'r Cabinet eu hystyried.

Yn Gwasanaethau Plant mae'r Pwyllgor wedi archwilio meysydd critigol tebyg i'r Cynnig Gofal Plant, y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, Rhianta Corfforaethol ac adroddiadau rheolaidd ar ostwng yn ddiogel nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Datblygiad nodedig fu cyflwyno cartref preswyl pedwar gwely ar gyfer plant a llety argyfwng pellach gyda phedwar gwely yn ardal Tredegar; teimlai'r Pwyllgor ei bod yn hanfodol sefydlu mentrau newydd tebyg i hyn a manteisio ar gyllid cyfalaf ychwanegol Llywodraeth Cymru ar adeg pan fo cyllidebau cynghorau yn lleihau. Teimlai aelodau y byddai'r prosiect yn galluogi plant sy'n derbyn gofal i fyw o fewn eu cymunedau ar gyfer dibenion addysgol ac i fyw mor agos ag sy'n bosibl at gyfeillion a theulu ac yng ngofal Blaenau Gwent. Fe wnaethant hefyd groesawu'r cyfle y gallai'r cartref ei roi wrth helpu i ostwng cyllid refeniw mewn maes critigol.

Mewn Gwasanaethau Oedolion mae'r Pwyllgor wedi edrych ar feysydd hollbwysig tebyg i'r Gronfa Gofal Integredig, Byw'n Annibynnol.

Mewn Addysg, mae'r Pwyllgor wedi craffu ar adroddiadau a gwneud argymhellion i'r Cabinet mewn meysydd sy'n cynnwys cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, darpariaeth a strategaethau ADY, addysg a diogelu, polisi derbyn ysgolion a'r rhaglen gwella ysgolion. Fe wnaeth Aelodau hefyd graffu adroddiad ar Arolwg Estyn a thrafod adroddiad diwedd blwyddyn gan y Cyfarwyddwr Addysg.

Cytunodd y Pwyllgor fod y ddwy adran wedi ymateb yn dda i archwiliadau mewnol ac wedi datblygu cynlluniau gweithredu cadarn i gyfarch yr argymhellion a gafodd eu creu.

I weld yr eitemau a graffwyd yn ystod y flwyddyn, mae'r Blaenraglenni Gwaith ar gael ar y ddolen ddilynol Blaenraglen Gwaith Pwyllgor Craffu Pobl 2022/23



***Cyng Tommy Smith***

***Cadeirydd, Pwyllgor Craffu Pobl***

## Presenoldeb Aelodau yn y Pwyllgor Craffu Pobl

**Cadeirydd:**

Cynghorydd Tommy Smith (mynychu 6 o 6 cyfarfod)

**Is-gadeirydd:**

Cynghorydd Jen Morgan (mynychu 4 o 6 cyfarfod)

Cynghorydd Derrick Bevan (mynychu 6 o 6 cyfarfod)

Cynghorydd Carl Bainton (mynychu 6 o 6 cyfarfod)

Cynghorydd Keith Chaplin (mynychu 5 o 6 cyfarfod)

Cynghorydd Gareth A Davies (mynychu 5 o 6 cyfarfod)

Cynghorydd Julie Holt (mynychu 5 o 6 cyfarfod)

Cynghorydd Godfrey Thomas (mynychu 4 o 6 cyfarfod)

Cynghorydd David Wilkshire (mynychu 4 o 6 cyfarfod)

## Cylch Gorchwyl y Pwyllgor:

Prif feysydd cyfrifoldeb y **Pwyllgor Craffu Pobl** yw datblygu ac adolygu strategaethau, cynlluniau a pholisïau a monitro perfformiad y Cyfarwyddiaethau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelu Corfforaethol.

## Uchafbwyntiau y Flaenraglen Gwaith Craffu

| **Pwnc:** Rhwymedigaethau Ariannol y Gronfa Integreiddio Ranbarthol |
|---|
| **Gweithgaredd** |
| Cyflwynwyd adroddiad i'r pwyllgor ystyried rhwymedigaethau ariannol a goblygiadau'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol a'i model cyllid tapr.<br><br>Gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried a gwneud argymhellion i'r Cyngor, os oedd y cyngor yn derbyn neu'n gwrthod y rhwymedigaethau a rhoi ei ymateb i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent drwy Gyfarwyddwr Cynorthwyol y Bartneriaeth ac Integreiddio mewn Iechyd |
| **Canlyniad** |
| Ystyriodd y pwyllgor yr adroddiad a'r cyflwyniad a thrafod y goblygiadau ariannol a'r risgiau yng nghyswllt y prosiectau mewn Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion a gaiff eu cefnogi gan gyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ac argymhellodd fod y Cyngor yn rhoi ymateb i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent yn dweud nad yw'n derbyn y rhwymedigaethau ariannol a goblygiadau y Gronfa Integreiddio Ranbarthol a'i model dyllid tapr.<br><br>Ystyriodd y Cyngor yr adroddiad ac argymhelliad y Pwyllgor Craffu a chytunodd yn unfrydol na fydd y Cyngor yn derbyn rhwymedigaethau ariannol y Gronfa Integreiddio Ranbarthol newydd a'i model cyllid tapr. |

## Pwyllgor Craffu Pobl


Ystyriodd y Pwyllgor Craffu Pobl nifer o bolisïau, cynlluniau a strategaethau ac adroddiadau perfformiad lefel uchel. Hefyd mynychodd Aelodau sesiynau Gwybodaeth i Aelodau i gynyddu eu sgiliau a'u gwybodaeth. Caiff enghreifftiau ohonynt eu rhestru isod:

**Polisïau, Cynlluniau a Strategaethau**




- Polisi Cludiant Rhwng y Cartref ar Ysgol ac Ôl 16
- Cynnig i ymchwilio a datblygu achos busnes ar gyfer darpariaeth breswyl i blant ym Mlaenau Gwent
- Polisïau a strategaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Polisi derbyn i ysgolion ar gyfer addysg feithrin ac addysg statudol

**Monitro Perfformiad Lefel Uchel**



- Adroddiad blynyddol 2021/22 y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac adroddiad hanner blwyddyn
- Addysg Perfformiad Diogelu a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Rhaglen Gwella Ysgolion
- Adroddiadau hanner blwyddyn a diwedd blwyddyn—adroddiadau'r Cyfarwyddwr Addysg
- Adroddiad Hunanwerthuso Cryno 2022
- Ymateb i Arolwg LGES Estyn

**Sesiynau Gwybodaeth i Aelodau**



- Paratoadau Estyn
- Datganiad Safle Gwent a Marchnad Ranbarthol
- Ehangu Dechrau'n Deg
- Parth Dysgu Blaenau Gwent—Canlyniadau Ôl-16
- Gwasanaeth Ieuenctid
- Maethu a Mabwysiadu
- Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid
- Cynnig am Gartref Plant ym Mlaenau Gwent
- Rhaglen Trawsnewid Integreiddio Blynyddoedd Cynnar
- Adborth Estyn

# Pwyllgor Craffu Lle

## Trosolwg y Cadeirydd

Mae'r Pwyllgor Craffu Lle yn dod â dau bwyllgor blaenorol ynghyd, y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol a'r Pwyllgor Craffu Adfywio. Mae prif feysydd cyfrifoldeb y Pwyllgor Craffu Lle yn cynnwys y Cyfarwyddiaethau Gwasanaethau Cymunedol ac Adfywio, Datgarboneiddio a Newid Hinsawdd a Diogelwch Cymunedol yn cynnwys teledu cylch caeedig.

Cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith yn ystod 2022/23 a rhoi ystyriaeth ac argymhellion ar nifer o adroddiadau, tebyg i roi ystyriaethau i'r Cabinet ar:

- Yr opsiynau ar gyfer gwaith priffyrdd ar draws y fwrdeistref;
- Cynlluniau Creu Lle ar gyfer Tredegar a Brynmawr;
- Blaenoriaethu ffrydiau cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin; a
- Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Mae'r aelodau hefyd wedi mynychu nifer o sesiynau gwybodaeth diddorol a defnyddiol, ar ystod eang o feysydd.

Gofynnodd aelodau nifer o gwestiynau treiddgar a heriol i sicrhau dealltwriaeth lawn o'r adroddiadau a gyflwynwyd.

Edrychwn ymlaen at barhau gwaith y pwyllgor hwn i 2023/24 ac ystyried gwahanol adroddiadau tebyg i'r Cynlluniau Creu Lle ar gyfer Abertyleri a Blaenau a'r Cynllun Cynnal a Chadw Priffyrdd newydd.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r pwyllgor am eu presenoldeb a'u mewnbwn adeiladol yn ystod y flwyddyn. Hoffwn sôn am a diolch yn arbennig i'r Is-gadeirydd, Cyng Ross Leadbeater, am ei gefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.



***Cyng Malcolm Cross***

***Cadeirydd, Pwyllgor Craffu Lle.***

I weld yr eitemau a gafodd eu craffu yn ystod y flwyddyn, mae'r Blaenraglenni Gwaith ar gael ar y ddolen ddilynol: Blaaenraglen Gwaith 2022/23 y Pwyllgor Craffu Lle.

## Presenoldeb Aelodau yn y Pwyllgor Craffu Lle

**Cadeirydd:**

Cynghorydd Malcolm Cross (mynychu 4 o 5 cyfarfod)

**Is-gadeirydd:**

Cynghorydd Ross Leadbeater (mynychu 4 o 5 cyfarfod)

Cynghorydd Peter Baldwin (mynychu 4 o 5 cyfarfod)

Cynghorydd Sonia Behr (mynychu 5 o 5 cyfarfod)

Cynghorydd John Hill (mynychu 4 o 5 cyfarfod)

Cynghorydd Julie Holt (mynychu 5 o 5 cyfarfod)

Cynghorydd Jules Gardner (mynychu 3 o 5 cyfarfod)

Cynghorydd John P Morgan (mynychu 4 o 5 cyfarfod)

## Cylch Gorchwyl y Pwyllgor:

Prif feysydd cyfrifoldeb y **Pwyllgor Craffu Lle** yw datblygu ac adolygu strategaethau, cynlluniau a pholisïau a monitro perfformiad y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol ac Adfywio, Datgarboneiddio a Newid Hinsawdd, a Diogelwch y Gymuned yn cynnwys teledu cylch caeedig.

## Uchafbwyntiau Blaenraglen Gwaith Craffu

| **Pwnc:** Adolygu Strategaeth Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu |
|---|
| **Gweithgaredd** |
| Cafodd y pwyllgor ddiweddariad o'r cynnydd hyd yma a gofynnwyd iddo hefyd ystyried ac awgrymu gwelliannau i'r adolygiad tair blynedd o Strategaeth Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu 2018-25. |
| **Canlyniad** |
| Cydnabu'r pwyllgor y cynnydd a wnaed hyd yma ac awgrymodd ddiwygiadau i'r adolygiad tair blynedd o'r strategaeth:<br>· Adolygu'r daliedyddion a roddir i breswylwyr i sicrhau eu bod yn addas i'r diben; a lle'n briodol ac ymarferol i gasglwyr sbwriel wahanu'r gwastraff a gasglant ar gyfer ailgylchu a<br>· Cynnal rhaglen o weithgaredd ymgysylltu wedi ei dargedu i gyrraedd y targed ailgylchu o 70%.<br>Cafodd y Cabinet yr adroddiad yn ei gyfarfod yn Ionawr 2023 a chytunodd yn llawn ar argymhellion y pwyllgor craffu. |

## Pwyllgor Craffu Lle


Ystyriodd y Pwyllgor Craffu Lle nifer o bolisïau, cynlluniau a strategaethau ac adroddiadau perfformiad lefel uchel.  Hefyd mynychodd Aelodau sesiynau Gwybodaeth i Aelodau i gynyddu eu sgiliau a'u gwybodaeth. Caiff enghreifftiau ohonynt eu rhestru isod:

**Polisïau, Cynlluniau a Strategaethau**




- Adolygu Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu
- Cynllun Datblygu Lleol Newydd
- Rhaglen Gwaith Cyfalaf Priffyrdd
- Gorchymyn Diogelu Mannau Agored i'r Cyhoedd
- Cynllun Creu Lle Tredegar
- Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a Gorfodaeth Amgylcheddol—Polisi Gorfodaeth Diwygiedig
- Cynllun Datblygu Lleol Newydd
- Cynllun Creu Lle Brynmawr

**Monitro Perfformiad Lefel Uchel**



- Perfformiad Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol ac Adfywio

**Sesiynau Gwybodaeth i Aelodau**



- Cynllun Datblygu Lleol
- Cyfleuster Coed Rhanbarthol
- Gorfodaeth Parcio Sifil
- Blaengynllun Cydnerthedd Bioamrywiaeth ac Ecosystemau
- Cynnal a Chadw yn ystod y Gaeaf
- Prosbectws Ynni
- Digartrefedd a Llety Gwely a Brecwast
- Trafnidiaeth Gyhoeddus

# Pwyllgor Craffu Partneriaeth

## Trosolwg y Cadeirydd

Cafodd Pwyllgor Craffu newydd ei sefydlu yn 2022, gyda ffocws ar Bartneriaethau. Roedd ffocws y Pwyllgor ar y partneriaethau y mae gan y Cyngor fuddiant ynddynt ac sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ar ein rhan.

Mae'r Pwyllgor wedi mynd ati i graffu  y prif feysydd o drosolwg a threfniant llywodraethiant partneriaid fel eu bod yn ddigonol ac effeithiol, gan gynnwys egwyddorion llywodraethiant da sef Atebolrwydd, Arweinyddiaeth, Uniondeb, Stiwardiaeth a Thryloywder.

Roedd y prif bartneriaid a graffwyd yn cynnwys:

- Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- SRS
- Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg

Gwnaed argymhellion i'r Cabinet yng nghyswllt y Cytundeb Partneriaeth Addysg, Cynllun Llesiant Gwent, Trefniadau Cydweithio Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu (Awdurdodau Lleol) Cymru a Chynllun Busnes EAS.

Cynhaliwyd monitro perfformiad ar Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, Safonau Llyfrgell Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru a SRS.

Y tu allan i'r pwyllgor craffu ffurfiol, mae aelodau wedi mynychu nifer fawr o sesiynau gwybodaeth, a fu'n ddefnyddiol ac a wnaeth ddatblygu ymhellach ein gwybodaeth a dealltwriaeth o bynciau penodol..

Mae aelodau'r pwyllgor newydd wedi cydweithio'n dda ac wedi rhoi her adeiladol, gan gynorthwyo'r Cabinet wrth ddatblygu polisi yn ogystal â monitro perfformiad partneriaid.



***Clng Wayne Hodgins***

***Cadeirydd, Pwyllgor Craffu Partneriaeth.***

I weld yr eitemau a gafodd eu craffu yn ystod y flwyddyn, medrir gweld y Blaenraglenni Gwaith ar y ddolen ddilynol Blaenraglen Gwaith 2022/23 Pwyllgor Craffu Partneriaeth

## Presenoldeb Aelodau yn y Pwyllgor Craffu Lle

**Cadeirydd:**

Cynghorydd Wayne Hodgins (mynychu 4 o 4 cyfarfod)

**Is-gadeirydd:**

Cynghorydd Peter Baldwin (mynychu 3 o 4 cyfarfod)

Cynghorydd Keith Chaplin (mynychu 4 o 4 cyfarfod)

Cynghorydd David C Davies (mynychu 4 o 4 cyfarfod)

Cynghorydd Ellen Jones (mynychu 4 o 4 cyfarfod)

Cynghorydd Lee Parsons (mynychu 3 o 4 cyfarfod)

Cynghorydd Chris Smith (mynychu 4 o 4 cyfarfod)

Cynghorydd Lisa Winnett (mynychu 4 o 4 cyfarfod)

Cynghorydd Dean Woods (mynychu 1 o 4 cyfarfod)

## Cylch Gorchwyl y Pwyllgor:

Prif feysydd cyfrifoldeb y **Pwyllgor Craffu Partneriaeth** yw monitro trefniadau trosolwg a llywodraethiant partneriaid a ddynodwyd: Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, y Gwasanaeth Rhannu Adnoddau (SRS) a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd dderbyn diweddariadau gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

## Uchafbwyntiau Blaenraglen Gwaith Craffu

| **Pwnc: Cynllun Busnes 2023-25 EAS - Ymgynghoriad** |
|---|
| **Gweithgaredd** |
| Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cynllun a rhoi sylwadau ar y drafft Gynllun. Rhoddid ystyriaeth i unrhyw adborth gan y pwyllgor wrth gwblhau fersiwn terfynol y Cynllun Busnes. |
| **Canlyniad** |
| Ystyriodd y pwyllgor y drafft Gynllun Busnes a chododd bryderon am y gostyngiad mewn cyllid a ddarparwyd i EAS ar draws holl awdurdodau lleol Gwent. Rhoddwyd sicrwydd i Aelodau y cafodd y Cynllun Busnes ei lunio gyda golwg ar ddiogelu gwasanaethau rheng flaen i ysgolion a lleoliadau ar gyfer 2023/24. Felly derbyniodd yr Aelodau yr adroddiad a'r Cynllun Busnes. |

## Pwyllgor Craffu Partneriaeth

Ystyriodd y Pwyllgor Craffu Lle nifer o bolisïau, cynlluniau a strategaethau adroddiadau perfformiad lefel uchel. Hefyd mynychodd Aelodau sesiynau Gwybodaeth i Aelodau i gynyddu eu sgiliau a'u gwybodaeth. Caiff enghreifftiau ohonynt eu rhestru isod:

**Polisïau, Cynlluniau a Strategaethau**




- Cytundeb Partneriaeth Ysgolion Statudol a Gynhelir
- Cynllun Llesiant Gwent
- Trefniadau Cydweithio Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu (Awdurdodau Lleol) Cymru
- Cynllun Busnes Gwasanaeth Cyflawni Addysg 2022/23

**Monitro Perfformiad Lefel Uchel**



- Diweddariad ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Gwasanaeth Rhannu Adnoddau (SRS)
- Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin

**Sesiynau Gwybodaeth i Aelodau**



- Gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Gwasanaeth Rhannu Adnoddau (SRS)
- Cytundeb Partneriaeth Cytundeb Lefel Gwasanaeth Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin
- Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd/Cymoedd Technoleg
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

## Presenoldeb Aelodau mewn Pwyllgorau Craffu

| | Cyfanswm Aelodau i Fynychu **Medi 22 - Ebrill 23** | Gwir Bresenoldeb **Sept 22 -Apr 23** | % Presenoldeb **Medi 22—Ebrill 23** | Nifer Cyfarfodydd a Gynhaliwyd **Medi 22—Ebrill 23** | * Strwythur Pwyllgor Mehefin 21—Mawrth 22 | % Presenoldeb Mehefin 21—Mawrth 22 | Nifer Cyfarfodydd a Gynhaliwyd Mehefin 21—Mawrth 22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trosolwg Corfforaethol a Pherfformiad | 81 | 75 | 92 | 9 | Trosolwg Corfforaethol | 81 | 7 |
| Pobl | 54 | 45 | 83 | 6 | Addysg a Dysgu<br>Gwasanaethau Cymdeithasol | 94<br>82 | 7<br>4 |
| Lle | 45 | 37 | 82 | 5 | Gwasanaethau Cymunedol<br>Adfywio | 89<br>90 | 6<br>7 |
| **Partneriaeth | 36 | 31 | 86 | 4 | - | - | - |
| | | | | | | | |
| **Prif Gyfanswm** | **216** | **188** | **87** | **24** | | **85** | **31** |

* Strwythur pwyllgor newydd o fis Medi 2022 ymlaen

** Pwyllgor newydd, dim cymhariaeth gyda blynyddoedd blaenorol

## Sut y gall y cyhoedd gymryd rhan yn y Broses Craffu

Mae croeso i aelodau'r cyhoedd fynychu unrhyw gyfarfod Pwyllgor i edrych ar yr hyn sy'n digwydd (os nad oes eitem eithriedig), caiff yr agenda ei gyhoeddi wythnos cyn y cyfarfod, ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, yn ystod 2022/23 oherwydd newidiadau i'r Hyb Democrataidd yn y Swyddfeydd Cyffredinol, cafodd cyfarfodydd eu cynnal yn rhithiol ar Microsoft Teams a'u recordio a'u lanlwytho ar wefan y cyngor, erbyn y trannoeth fel arfer, i alluogi aelodau o'r cyhoedd i weld y cyfarfodydd ar-lein. Serch hynny, os bydd aelod o'r cyhoedd yn gofyn am fynychu'r Swyddfeydd Cyffredinol i arsylwi cyfarfod, byddai darpariaethau yn cael eu rhoi yn eu lle i alluogi gweld cyfarfod y pwyllgor.

Ym mlwyddyn fwrdeisiol newydd 2023/24, gall aelodau o'r cyhoedd edrych ar gyfarfodydd yn rhithiol neu yn ffisegol yn y Swyddfeydd Cyffredinol.

Mae'r Cyngor wrthi'n paratoi Strategaeth Cyfranogiad i gynnwys ffyrdd y gall aelodau o'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Mae agendâu, adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd ar gael ar wefan y Cyngor: Cynghorwyr a Phwyllgorau | CBS Blaenau Gwent

Gall aelodau o'r cyhoedd awgrymu eitemau ar gyfer y Pwyllgor Craffu naill ai drwy ysgrifennu, anfon e-bost neu ffonio'r Tîm Democrataidd. Mae gwybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor: CBS Blaenau Gwent: Cymryd Rhan mewn Democratiaeth (blaenau-gwent.gov.uk)

Mae'r holl wybodaeth cyswllt ar gael yng nghefn y ddogfen.

# Deddfwriaeth

### Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau i hyrwyddo amrywiaeth, ymgyfraniad a chyfranogiad yn nhrefniadau democrataidd y cyngor. Mae rhai o'r darpariaethau hyn yn cynnwys:

- Annog pobl leol i gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau
- Datblygu Strategaeth Cyfranogiad
- Darlledu cyfarfodydd yn electronig a chyfarfodydd aml-leoliad
- Adolygu cynllun deisebau y cyngor
- Rhannu swydd ar gyfer aelodau y Weithrediaeth.

Mae'r Cyngor yn dymuno gweithredu'r meysydd gofynnol o'r Ddeddf ac mae wedi cynnwys hyn o fewn cynllun gweithredu y gellir ei fonitro gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn y dyfodol fel sy'n briodol.

Mae'r Ddeddf wedi galluogi cynghorau i weithredu cyfarfodydd aml-leoliad lle caiff Aelodau Etholedig, swyddogion, y cyhoedd a'r wasg gyfle i fynychu cyfarfodydd yn ffisegol yn y Swyddfeydd Cyffredinol yng Nglynebwy neu'n rhithiol drwy Microsoft Teams. Ni all cynghorau orfodi presenoldeb corfforol mewn cyfarfodydd. Fe wnaeth Cyngor Blaenau Gwent gymeradwyo ei Bolisi Cyfarfodydd Aml-leoliad ym mis Medi 2022.

### Datgarboneiddio

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Statws Carbon Sero Net erbyn 2030: Cynllun Sector Cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r ddogfen yn rhoi trosolwg strategol o'r meysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithredu a'r cerrig milltir yr oedd sector cyhoeddus Cymru eu hangen i gyrraedd allyriadau nwyon ty gwydr sero-net erbyn 2030.

Mabwysiadodd Cyngor Blaenau Gwent ei Gynllun Datgarboneiddio ym mis Medi 2021. Mae'r Cynllun yn nodi sut y byddai Blaenau Gwent yn cyflawni ei ymrwymiad i uchelgais i sector cyhoeddus Cymru gyrraedd Sero Net erbyn 2030.

Mae'r templed adrodd corfforaethol democrataidd yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion ystyried sut mae pwnc yr adroddiad yn effeithio ar Gynllun Datgarboneidido y Cyngor.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae 'n ofyniad yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 fod cyrff cyhoeddus yn cynnal datblygu cynaliadwy—y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gan sicrhau fod ein holl feysydd gwasanaeth yn rhoi ystyriaeth gywir fel bod y gwasanaethau a ddarparwn yn ateb anghenion y presennol heb leihau gallu cenedlaethau'r dyfodol i wneud yr un fath. Felly mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, fel corff cyhoeddus dynodedig dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ddyletswydd i sicrhau y rhoddir ystyriaeth gywir i'r Ddeddf.

Mae'r templed adroddiadau corfforaethol democrataidd yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion ystyried sut mae pwnc yr adroddiad yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Arweiniodd hyn at ddatblygu Asesiad Effaith Integredig newydd sy'n cynnwys ystyriaethau polisi ehangach tu hwnt i gydraddoldeb ac economaidd-gymdeithasol:

- Nodau llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol
- Amcanion corfforaethol newydd
- Lluoedd arfog (dyletswyddau cenedlaethol newydd)
- Ystyriaethau diogelwch cymunedol

Mae'r Tim Polisi yn parhau i ddarparu cymorth, cyngor ac arweiniad parhaus i'r rhai sy'n cwblhau proses yr Asesiad.

**Asesiad Effaith Integredig**

Fel corff cyhoeddus diffiniedig yng Nghymru, mae'n rhaid i'r Cyngor gyflawni gofynion penodol ar gyfer asesu effaith sy'n cyfeirio at effaith debygol unrhyw bolisïau neu arferion newydd neu bresennol (pan gânt eu hadolygu). Mae ffocws allweddol ar y gallu i ateb tair dyletswydd gyffredinol y Cyngor dan y Ddeddf, yn cynnwys asesu unrhyw effaith cadarnhaol neu negyddol ar grwpiau a ddaw o fewn y naw nodwedd warchodedig.

Lle barnwyd fod effaith negyddol sylweddol (neu debygol) mae'n rhaid i'r Cyngor adrodd hynny, gan amlinellu unrhyw benderfyniadau gyda chamau lliniaru a ystyriwyd/weithredwyd.

Cynhaliwyd adolygiad o sut mae'r Cyngor yn cynnal asesiadau effaith yn 2021/22. Roedd hyn yn cyflawni disgwyliadau cyfreithiol newydd y Ddeddf, y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol.

Cafodd y broses hefyd ei chryfhau hefyd i sicrhau y rhoddwyd ystyriaeth lawn i bob ffactor cydraddoldeb ac economaidd-gymdeithasol, gan adolygu polisïau neu ddatblygu polisïau newydd. Mae'r gofyniad i gynnal ac adrodd ar asesu effaith yn parhau mewn templedi adrodd corfforaethol penderfyniadau.

## Datblygiadau ar y Gweill

- Mae'r Cyngor wrthi'n paratoi Strategaeth Cyfranogiad i gynnwys ffyrdd y gall aelodau o'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.
- Bydd darlledu byw ar holl gyfarfodydd llawn y Cyngor yn dechrau yng nghylch 2023/24. Gellir ymestyn hyn i gyfarfodydd Democrataidd eraill yn dibynnu ar ganllawiau Llywodraeth Cymru.
- Dynodi pobl ifanc i gefnogi'r broses graffu, e.e. mynychu cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol, gweithgorau gorchwyl a gorffen pwyllgor, ymgynghoriadau a sesiynau gwybodaeth aelodau.
- Cynnal adolygiad o'r cylch gorchwyl a'r trefniadau ar gyfer y Pwyllgor Craffu Partneriaeth.
- Cydlynu a rheoli datblygiad Pwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent.
- Cefnogi aelodau gyda gwaith ymchwil.
- Cynnal adolygiad blynyddol o'r Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad.

## Gwybodaeth Cyswllt

Os hoffech ganfod mwy am ein gwaith neu sut i gymryd rhan mewn gweithgaredd Craffu yn y dyfodol, cysylltwch â:

| | | |
|---|---|---|
| **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau**<br>Sarah King<br>**Ffon:** 07870 402616<br>**E-bost:** Sarah.king@blaenau-gwent.gov.uk | **Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democratiaeth (Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd)** Gemma Wasley<br>**Ffon:** 07977158983<br>**E-bost:** Gemma.wasley@blaenau-gwent.gov.uk | **Swyddog Craffu a Democrataidd (Ymgynghorydd Pwyllgor)**<br>Elizabeth Thomas<br>**Ffon:** (01495) 354795<br>**E-bost:** Liz.thomas@blaenau-gwent.gov.uk |

| | |
|---|---|
| **Gallwch gysylltu â'ch Cynghorydd lleol** a siarad gydag ef/hi am Craffu. Mae manylion cyswllt Cynghorwyr ar gael ar ein gwefan yn CBS Blaenau Gwent: Cyfeiriadur Cynghorwyr (blaenau-gwent.gov.uk)<br><br>**Cyfeiriad:**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>Swyddfeydd Cyffredinol<br>Heol Gwaith Dur<br>Tyllwyn<br>Glynebwy<br>NP23 6AA<br>**Gwefan:** CBS Blaenau Gwent: Blaenau Gwent (blaenau-gwent.gov.uk) | Mae **dogfennau ychwanegol a all fod o ddidorddeb i chi** ar gael ar ein gwefan.<br>Cofnodion, Agendâu ac Adroddiadau y Cyngor<br>CBS Blaenau Gwent : Cofnodion, Agendâu ac Adroddiadau y Cyngor (blaenau-gwent.gov.uk)<br><br>Cyfansoddiad y Cyngor CBS Blaenau Gwent - Cyfansoddiad y Cyngor<br>Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cyrmu) 2021 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021<br><br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |

# Atodiad 1

# Adroddiad Gwerthuso Craffu

Mae gwerthuso yn rhan bwysig o'r broses Craffu. Mae gwerthusiad rheolaidd o'n prosesau craffu yn ein helpu i feddwl am ymarfer a pherfformiad presennol a bydd yn ein cefnogi i barhau i ddatblygu a gwella'r prosesau craffu ym Mlaenau Gwent.

Ym Mlaenau Gwent cynhelir sesiwn werthuso ar ol pob cyfarfod a chaiff ffurflenni gwerthuso eu cylchredeg i'r holl aelodau hynny a fynychodd yn dilyn pob cyfarfod. Y nod yw cael adborth cadarnhaol yn ogystal â sylwadau adeiladol ar feysydd i'w gwella ymhellach.


Caiff yr adroddiad ei rannu yn ol gwerthusiad Aelodau a swyddogion.


## Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a Pherfformiad

Caiff yr wybodaeth ei chasglu o gyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod Medi 2023 i Ebrill 2023, yn cynnwys cyfanswm o **9** cyfarfod Pwyllgor Craffu.

**Adborth Aelodau Pwyllgor:**

O'r **76** gwerthusiad a anfonwyd ar gyfer y naw cyfarfod: cafodd **16** gwerthusiad eu cwblhau. Gellir gweld canlyniadau'r gwerthusiadau hyn yny graffiau isod:








# Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a Pherfformiad

**Adborth Swyddogion:**

O'r **74** gwerthusiad a anfonwyd ar gyfer y naw cyfarfod: cafodd **20** gwerthusiad eu cwblhau. Gellir gweld canlyniadau'r gwerthusiadau hyn yn y graffiau isod:








# Pwyllgor Craffu Pobl

Casglwyd yr wybodaeth o gyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod Medi 2023 i Ebrill 2023, yn cynnwys cyfanswm o **6** cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu.

**Adborth Aelodau Pwyllgor:**


O'r **37** gwerthusiad a anfonwyd dros y chwe chyfarfod: cafodd **16** gwerthusiad eu cwblhau. Gellir gweld canlyniadau'r gwerthusiadau hynny yn y graffiau isod:




**Adborth Swyddogion:**

O'r **38** gwerthusiad a anfonwyd dros y chwe chyfarfod: cafodd **18** gwerthusiad eu cwblhau. Medrir gweld canlyniadau'r gwerthusiadau hynny yn y graffiau isod:








# Pwyllgor Craffu Lle

Caiff yr wybodaeth ei chasglu o gyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod Medi 2023 i Ebrill 2023, yn cynnwys cyfanswm o **5** Pwyllgor Craffu.

**Adborth Aelodau Pwyllgor:**

O'r **38** gwerthusiad a anfonwyd dros y chwe chyfarfod: cafodd **16** gwerthusiad eu cwblhau. Medrir gweld canlyniadau'r gwerthusiadau hynny yn y graffiau isod:








# Pwyllgor Craffu Lle

**Adborth Swyddogion:**

O'r **43** gwerthusiad a anfonwyd dros y pump cyfarfod: cafodd **14** gwerthusiad eu cwblhau. Medrir gweld canlyniadau'r gwerthusiadau hynny yn y graffiau isod:







# Pwyllgor Craffu Partneriaeth

Caiff yr wybodaeth ei chasglu o gyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod Hydref 2023 i Mawrth 2023, yn cynnwys cyfanswm o **4** Pwyllgor Craffu.

**Adborth Aelodau Pwyllgor:**

O'r **30** gwerthusiad a anfonwyd dros y chwe chyfarfod: cafodd **6** gwerthusiad eu cwblhau. Medrir gweld canlyniadau'r gwerthusiadau hynny yn y graffiau isod






## Pwyllgor Craffu Partneriaeth

**Adborth Swyddogion:**

O'r **17** gwerthusiad a anfonwyd dros y pedwar cyfarfod: cafodd **3** gwerthusiad eu cwblhau. Medrir gweld canlyniadau'r gwerthusi-adau hynny yn y graffiau isod:

